Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanelltyd
# Llanelltyd
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 2TA

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanelltyd wedi ei lleoli yn nyffryn Mawddach ar gyrion pentref Llanelltyd, rhyw dair milltir o dref Dolgellau yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos.

Ar hyn o bryd, mae 39 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys un plentyn o oed meithrin. Mae dau ddosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 30% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o'r disgyblion ddaw o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n is na'r canran sirol a cenedlaethol. Mae 13% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Chwefror 2010. Mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Ebrill 2015. Mae hefyd yn bennaeth ar ysgol gyfagos.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanelltyd yn 2014-2015 yw £4,685. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gynradd Llanelltyd yn y 23ain safle o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad Ysgol Llanelltyd yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda
- O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n fuan a llawer ohonynt yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Bod lefelau presenoldeb uchel a bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- Bod profiadau dysgu cyfoethog, ansawdd yr addysgu yn dda, a chymorthyddion dosbarth yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol
- Bod iddi ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- Bod gallu'r corff llywodraethol i herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n dda
- Bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- Bod holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac, o ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach
- Ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig a’u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y cynllunio yn enwedig ar gyfer herio disgyblion o allu uwch

A3 Cysoni’r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith

A4. Datblygu ymhellach rôl y tim arweinyddol wrth sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg, sydd yn newydd i lawer ohonynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw dysgu blaenorol yn briodol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Maent yn cyfathrebu yn gynyddol gywir a hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Enghraifft dda o'u medrau llafar yw eu hapêl radio ar-lein i helpu pobl Nepal wedi'r trychineb diweddar. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio ystod briodol o eirfa addas yn Saesneg wrth fynegi barn am fanteision ac anfanteision byw yn y wlad neu yn y dref. Mae llawer yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae safon darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio'n effeithiol i ddarllen yn ystyrlon. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod amrywiol o lyfrau yn hyderus, deallus a chyda mynegiant. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am fywyd plant tlawd yn oes Victoria.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i'w hoedran ar draws y cwricwlwm; er enghraifft, wrth ysgrifennu llythyr o ddiolch i aelod o'r gymuned ddaeth i'w helpu i blannu blodau. Mae'r sillafu a'r atalnodi yn gweddu i'w hoedran ac mae'r gwaith wedi ei gyflwyno yn daclus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ailddrafftio. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir wrth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol ar draws ystod o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau yn ddigon cyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn gallu ymdrin â gweithgareddau datrys problemau syml a gwaith pen yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu data'n effeithiol gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff. Enghraifft o hyn yw'r graff sy'n cofnodi gwaith disgyblion Blwyddyn 2 ar dai gwahanol yn y pentref. Mae safonau rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau cyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir i ddatrys problemau. Maent yn gwneud defnydd cynyddol o ddata i gefnogi eu gwaith ar y gwahanol themâu, er enghraifft wrth ddefnyddio eu gwybodaeth o gyfesurynnau'n gywir ar fap ordnans i ehangu eu hadnabyddiaeth o'r ardal leol. Mae llawer hefyd yn trafod llinell amser a choeden deulu y Tuduriaid yn ddeallus yn eu gwersi hanes. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd ar lefel briodol yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf , mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd wedi codi o'r 50% is i'r 25% uchaf. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6) gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae llawer o garfanau bach yng nghyfnod allweddol 2. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae lefelau presenoldeb wedi gostwng ychydig yn 2014. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn yr 25% uchaf yn ystod y pedair blynedd flaenorol. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn weithgar, ac mae llais y disgybl yn cael rhan amlwg yno, er enghraifft trwy waith y swyddogion diogelwch. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o fenter a busnes, er enghraifft drwy gyfrannu'n ddeallus i brosiect 'Menter Mawddach' i greu nwyddau i'w gwerthu mewn ffeiriau ysgol. Mae disgyblion yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac ymwelwyr, ynghyd ag ymweliadau â'r gymuned leol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan flaenllaw yn rheolaidd mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu hymwybyddiaeth o'u cymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ymateb yn briodol i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fanteisio ar ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth. Maent hefyd yn manteisio ar ddarpariaeth ysgogol i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn meithrin dysgwyr annibynnol yn gymwys. Mae'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau dysgu eang sy'n ymateb i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion o allu uwch yn cael eu herio'n gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon wedi dechrau plethu'r medrau llythrennedd a rhifedd i'r pynciau cwricwlaidd yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u Cymreictod a'u hetifeddiaeth yn greiddiol yn yr ysgol. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion astudio hanes a daearyddiaeth Cymru a gwaith arlunwyr Cymreig enwog. Mae llawer o'r disgyblion yn cyfranogi'n llwyddiannus yng ngweithgareddau'r Urdd. Mae'r ysgol yn defnyddio Siarter Iaith Cymraeg ysgolion cynradd Gwynedd yn effeithiol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau addas i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd ac i godi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth byd eang. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion Blwyddyn 6 mewn cydweithrediad â disgyblion dwy ysgol gyfagos i godi arian yn sgil y drychineb ddiweddar yn Nepal.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac yn y rhan fwyaf o wersi maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addas i sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith er mwyn gwella ansawdd iaith lafar disgyblion. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion. Er hynny, ar adegau, nid yw'r gweithgareddau dysgu wedi eu haddasu er mwyn sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn.

Yn y gwersi, mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn gyson ac mewn llawer o'r llyfrau maent yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddiwallu anghenion disgyblion penodol. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae lefel uchel y gofal a'r cydweithio rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae pwysigrwydd cadw'n heini yn cael ei bwysleisio drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau allgyrsiol yn effeithiol. Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cael sylw da ar draws y cwricwlwm. Mae sesiynau addoli ar y cyd dyddiol, sydd yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, a chymdeithasol disgyblion. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am bobl lai ffodus.

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda nifer o wasanaethau arbenigol fel therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol a'r heddwas lleol er mwyn gwella lles disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cefnogaeth briodol ar eu cyfer. Mae'r defnydd effeithiol o gymorthyddion dysgu yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion hyn yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd gyda rhieni'n gyson.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal. Mae’r holl staff yn annog ymddygiad da’r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau’r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd sy’n hyrwyddo parch a gofal. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae’r ystafelloedd dosbarth a’r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy’n dathlu llwyddiannau a rhoi bri ar waith y disgyblion. Mae’r gofod dysgu o fewn yr adeilad a’r tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn addas ac yn cyfrannu’n effeithiol tuag at fodloni anghenion y disgyblion.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o’r holl safle. Mae’r adeilad a’r tir yn cael eu cynnal a’u cadw’n raenus gyda safon uchel o lanweithdra. Mae ardaloedd allanol amrywiol yr ysgol yn annog y disgyblion i gadw’n iach a gwerthfawrogi’r amgylchedd o’u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae’n cynnig arweiniad strategol cadarn sy’n adeiladu’n effeithiol ar yr arfer dda sy’n bodoli eisoes yn yr ysgol. Mae rolau staff wedi eu diffinio’n glir ac, o ganlyniad, maent yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio’n dda ar ansawdd yr addysgu a sicrhau safonau uchel. O ganlyniad, mae’r holl staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn cyfrannu’n dda at nodau ac amcanion yr ysgol. Mae’r pennaeth wedi adnabod nifer o dargedau gwelliant ac wedi rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda’r staff. Er hyn, mae’n rhy gynnar i weld effaith y strwythurau arweinyddol newydd ar ddeilliannau’r disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle, sy’n gosod targedau addas ar gyfer datblygu medrau staff ymhellach. Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft drwy ymateb yn gadarnhaol i’r siarter iaith.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn dda, ac yn ymwybodol o’i gyfrifoldebau. Mae aelodau’r corff yn ymateb yn gydwybodol i’w rôl weithredol trwy ddadansoddi data yn ofalus a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn drwyadl. Mae eu hymweliadau â’r ysgol yn rhoi ffocws clir iddynt ar wahanol agweddau, gan gynnwys dealltwriaeth gadarn o berfformiad y disgyblion ynghyd â’r agweddau hynny sydd angen gwelliant. O ganlyniad, mae eu gallu i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn datblygu’n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi ei gwella. Mae'r trefniadau arfarnu yn gwneud defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol drwy ddadansoddi data, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi a chasglu ac ystyried barn y disgyblion a'r rhieni. Mae'r broses o werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu blaenorol wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae hyn yn sicrhau adnabyddiaeth dda o'r hyn sydd wedi ei gyflawni. Mae dilyniant parhaus rhwng adroddiadau hunanarfarnu blynyddol ac mae cyswllt clir rhwng y broses hunanarfarnu a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys targedau mesuradwy ac amserlen weithredu benodol ynghyd â chyfrifoldebau staff a chostau synhwyrol.

Mae'r pennaeth wedi cryfhau'r broses o arsylwi a chraffu ar lyfrau a thrafod gyda staff gan adnabod yn glir yr agweddau sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi mireinio'i chynlluniau gwella trwy ganolbwyntio ar nifer hylaw o flaenoriaethau addas. Mae iddynt ffocws clir ar wella deilliannau grwpiau penodol o ddisgyblion ac mae'r athrawon wedi cymryd camau gweithredol cadarnhaol tuag at eu gwireddu. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio effeithiol gyda dwy ysgol gyfagos i wella safonau llafar ac ysgrifennu disgyblion Blwyddyn 6.

Mae'r cydweithio gydag athrawon o ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon rannu arfer dda ac i ddatblygu rôl arweinyddion cwricwlwm. Mae hyn wedi cryfhau eu medrau arsylwi er mwyn arfarnu effeithiolrwydd addysgu. Er hyn, nid yw rolau arweinyddol wedi eu datblygu'n llawn er mwyn sicrhau cyfrifoldebau ac atebolrwydd am wella ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n dda at ymestyn safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaeth agos gyda nifer o sefydliadau cymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth gyda'r Urdd yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ymestyn ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn ogystal â chystadlu mewn chwaraeon. Mae hyn i gyd yn cyfrannu'n dda at fagu medrau cymdeithasol, ieithyddol a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymuno â dwy ysgol gyfagos i drefnu gweithdai gwyddonol mewn partneriaeth a chanolfan wyddonol yng Nghaerdydd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill cyfagos i gynllunio gweithgareddau ar y cyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion ac ar ddatblygiad proffesiynol y staff. Mae hyn hefyd yn sicrhau cysondeb o fewn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion.

Mae cydweithio agos gyda mudiadau lleol, er enghraifft cynnal gwasanaeth diolchgarwch a ffair Nadolig mewn capel. Gwneir defnydd effeithiol o neuadd y pentref i gynnal cyngherddau ysgol a sioe Nadolig.

Mae trefn dda ar gyfer derbyn disgyblion newydd i'r ysgol o'r cylchoedd meithrin lleol sy'n sicrhau eu bod yn cychwyn yn yr ysgol yn hyderus. Mae trefniadau manwl yn eu

lle ar gyfer sicrhau bod y disgyblion hŷn yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynorthwyol i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorthyddion ar gyfer helpu disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cymorthyddion wedi derbyn hyfforddiant perthnasol i'w cyfrifoldebau sy'n ehangu eu cyfraniad.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill drwy arsylwi a rhannu arferion da. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynllunio gwersi o safon dda gan ehangu ar y trefniadau mewnol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith.

Mae gan yr ysgol drefn glir ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu targedau yr ysgol gyfan, ynghyd â thargedau datblygiad proffesiynol y staff.

Defnyddia'r ysgol y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn effeithiol i godi safonau mewn rhifedd drwy gyfrannu tuag at hyfforddiant dalgylch ac i gyflogi athrawes i weithio gyda grwpiau penodol o ddisgyblion ar gyfer gwella safonau llythrennedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod y gyllideb yn ofalus ac yn cytuno ar flaenoriaethau i'w cyllido. Mae'n monitro gwariant yn ofalus gan sicrhau bod adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli'n ofalus i fodloni anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612197 - Ysgol Llanelltyd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 41 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 5 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 80.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 80.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 20.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 20.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 5 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 40.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 16 | 13 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 81% | 12% | 6% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 10 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 11 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 69% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 16 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 7 | 6 | 1 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 7% | 7% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 10 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 8 | 6 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 50% | 38% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 7 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 47% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 16 | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 31% | 19% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 9<br>56% | 6<br>38% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 7<br>44% | 8<br>50% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 7<br>50% | 3<br>21% | 1<br>7% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 9<br>56% | 5<br>31% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | 11<br>69% | 4<br>25% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Einir Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llion Huws | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.